HUGHES, JOHN (1827 - 1893), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

Enw: John Hughes
Dyddiad geni: 1827
Dyddiad marw: 1893
Priod: Ellen Hughes (née Dew)
Rhiant: Ellen Hughes
Rhiant: John Hughes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Owen

Ganwyd 27 Medi 1827 yn nh capel y Methodistiaid Calfinaidd, Llannerch-y-medd, Môn, mab i John ac Ellen Hughes. Yn 15 oed prentisiwyd ef yn grydd; bu hefyd yn gyflogydd cryddion. Dysgodd William Roberts, Amlwch, Roeg iddo. Cyflwynwyd ei achos yng nghyfarfod misol Cemaes, 20 Rhagfyr 1847, a derbyniwyd ef yng nghyfarfod misol y Garreglefn, 17 Ionawr 1848. Aeth i athrofa'r Bala, Awst 1848; yr oedd yn efrydydd ymroddgar, yn bregethwr da, a daeth i'r amlwg yn gynnar. Wedi gadael y Bala agorodd ysgol yn Llannerch-y-medd. Priododd, 5 Tachwedd 1852, Ellen Dew.

Cyn diwedd 1852 symudodd i Borthaethwy, ond heb alwad reolaidd bugail. Bu yno bum mlynedd, ar gyflog o £20 y flwyddyn. Oddeutu naw swllt a chwe cheiniog oedd cyfartaledd ei dâl Sabothol. Yn Nhachwedd 1857 galwyd ef i eglwysi Lerpwl, ac ymhen tua thair blynedd cyfyngwyd ei lafur i eglwys Rose Place, wedi hynny Fitzclarence Street. Yn 1874 ymwelodd ag America - hwyliodd ar 18 Ebrill a dychwelyd 25 Gorffennaf.

Rhoes ei gyfundeb iddo bob anrhydedd - arholwr Coleg y Bala, 1871-2; traddodi'r cyngor yn y cyfarfod ordeinio dair gwaith, 1875, 1887, 1888; llywydd y gymdeithasfa yn y Gogledd, 1871; a llywydd y gymanfa gyffredinol, 1880. Bu'n athro dros dro yng Ngholeg y Bala, 1886-7. Yn 1888 galwyd ef i eglwys Engedi, Caernarfon; bu yno agos i bum mlynedd. Pregethodd deirgwaith yn Amlwch 22 Hydref 1893, a bu farw yn ei gartref yng Nghaernarfon y dydd canlynol.

Ysgrifennodd yn helaethach na fawr neb, yn arbennig i gyfnodolion ei gyfundeb. Ef a ysgrifennodd y rhan helaethaf o bawb o *Destament yr Ysgol Sabothol*. Cyfieithodd *Analogy* Butler yn Gymraeg, 1859, gan ychwanegu ato ragarweiniad lled faith. Heblaw golygu rhai cyfrolau, ysgrifennodd dri llyfr: *Unoliaeth y Beibl*, 1866; *Y Weinidogaeth*, 1879; *Hanes yr Athrawiaeth Gristionogol*, 1883. Ei nodwedd amlycaf oedd urddas tawel meddyliwr mawr.

Awdur

Y Parchedig Ddr John Owen, (1864 - 1953)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

gwybodaeth bersonol

Delweddau

John Thomas, John Hughes

LlGC: John Hughes

LlGC: Parch. John Hughes, D.D., Caernarfon ganwyd Medi 27, 1827; Bu farw Hydref 23, 1893

Gweithiau

John Hughes, *Duwioldeb boreuol: cofiant Miss Mary Ann Elias, Tre'rgof, Cemmaes, Môn* (Dinbych 1861)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 101555072

Wikidata: Q20733455

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu